# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## DYDD GWENER, 31 MAWRTH 2023

**PRESENNOL:** D. MacGregor (Cadeirydd)(Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
K.V. Broom K. Davies L. Davies K. Madge
M. Thomas

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
A. Evans A.G. Morgan

**Aelod Lleyg (Yn y Siambr):**
J. James

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
H. Pugh, Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol
C. Powell, Prif Archwilydd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 1.30 - 4.50 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Warlow, E. Williams a J. Williams a chan Mr M. MacDonald (Aelod Lleyg)

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Kim Broom | 5 – Cael cyflwyniadau a chyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer swyddi aelodau lleyg ar y pwyllgor llywodraethu ac archwilio | Aelod o'r Awdurdod Tân ac yn adnabod ymgeisydd Rhif 2 yn broffesiynol |
| Kevin Madge | 5 – Cael cyflwyniadau a chyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer swyddi aelodau lleyg ar y pwyllgor llywodraethu ac archwilio | Aelod o'r Awdurdod Tân ac yn adnabod ymgeisydd Rhif 2 yn broffesiynol |
| Mr David MacGregor | 5 – Cael cyflwyniadau a chyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer swyddi aelodau lleyg ar y pwyllgor | Yn adnabod ymgeisydd Rhif 2. yn broffesiynol |

| | | |
|---|---|---|
| | llywodraethu ac archwilio | |
| Mr C. Moore | 5 – Cael cyflwyniadau a chyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer swyddi aelodau lleyg ar y pwyllgor llywodraethu ac archwilio | Yn adnabod ymgeisydd Rhif 2. yn broffesiynol |
| Mrs H Pugh | 5 – Cael cyflwyniadau a chyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer swyddi aelodau lleyg ar y pwyllgor llywodraethu ac archwilio | Yn adnabod ymgeisydd Rhif 2. yn broffesiynol |

## 3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol.**

## 4. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR:-

Yn sgil cymhwyso prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod eitemau 4.1 a 4.1 isod yn cael eu hystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai hynny yn datgelu gwybodaeth eithriedig am unigolyn penodol (Paragraff 4.1 o Ran 4.2 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys manylion o'r ceisiadau a ddaethai i law am y swydd Person Lleyg. Roedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad uchod yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn, gan y byddai gan ymgeiswyr ddisgwyliad rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw fudd cyhoeddus tra phwysig o ran datgelu gwybodaeth o'r fath.

### 4.1. 15 TACHWEDD 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022.**

### 4.2. 24 CHWEFROR 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2023.**

## 5. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR AR Y RHESTR FER AR GYFER SWYDDI PERSONAU LLEYG AR Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

(NODER: Roedd y Cynghorwyr K. Broom a K. Madge ynghyd â Mr D. MacGregor, Mr C. Moore a Mrs H. Pugh wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a pharhaodd yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod)

Yn sgil cymhwyso prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai hynny yn datgelu gwybodaeth eithriedig am unigolyn penodol (Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys manylion o'r ceisiadau a ddaethai i law am y swydd Person Lleyg. Roedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad uchod yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn, gan y byddai gan ymgeiswyr ddisgwyliad rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw fudd cyhoeddus tra phwysig o ran datgelu gwybodaeth o'r fath.

Roedd y Pwyllgor wedi cyfweld â phedwar ymgeisydd ar gyfer swydd y Person Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau gan yr ymgeiswyr,

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR, er mwyn bodloni gofyniad Cyfansoddiad y Cyngor, bod y Cyngor Sir yn penodi Karen Jones i swydd Person Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y cyfnod 19 Ebrill 2023 hyd 18 Ebrill 2028.**

________________________ __________________
**CHAIR** **DATE**